**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg
26 Ionawr 2021

**Rhan 1**

**1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (“Rheoliadau 2021”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (“Rheoliadau 2017”);
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (“Rheoliadau 2018”);
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (“y Rheoliadau Graddau Doethurol”); a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (“y Rheoliadau Graddau Meistr”)

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio’r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr presennol er mwyn gwneud y canlynol:

- cynyddu swm y cymorth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig;
- cydgrynhoi Grantiau i Fyfyrwyr Anabl penodol i un lwfans newydd; a
- gwneud y newidiadau i’r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin sydd wedi’u cymhwyso i fframwaith codio pynciau DPAU.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Nid oes materion o ddiddordeb arbennig yn codi.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae Rheoliadau 2021 yn cael ei gwneud o dan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (“Deddf 1998”). Mae adran 22 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n awdurdodi neu’n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy’n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan y rheoliadau hynny, neu odanynt. Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy’n gymwys i gael cymorth o’r fath.

Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (“Deddf 2004”) wedi darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i’r graddau y maent yn gysylltiedig â gwneud unrhyw ddarpariaeth sy’n cael eu hawdurdodi gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Roedd adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu ar gyfer arfer swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Bob blwyddyn, mae nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 22 o Ddeddf 1998 yn cael eu dirprwyo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y rheoliadau hyn i ddarparu sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac i fyfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio cyrsiau addysg uwch dynodedig yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch dynodedig, sy'n dechrau ar 1 Medi 2017 neu ar ôl hynny, ac ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny, yn y drefn honno. Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018 ac sy'n newid o fod yn llawnamser i ran-amser neu ran amser i lawnamser ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny.

Mae Rheoliadau Graddau Meistr 2019 yn darparu ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau graddau Meistr dynodedig sy'n dechrau ar 1 Awst 2019 neu ar ôl hynny. Mae'r Rheoliadau Graddau Doethurol yn gwneud darpariaeth ar gyfer y rheini sy'n astudio cyrsiau doethurol dynodedig a ddechreuodd ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny.

Isod, nodir sut y mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr presennol:

<u>Cynyddu swm y cymorth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig (ymgodiadau)</u>

Yn achos ymgodiadau, mae Rheoliadau 2021 yn gymwys i'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl hynny ac yn darparu ar gyfer uwchraddio'r symiau cymorth yn flynyddol yn ôl yr arfer, fel y nodir isod.

*Israddedig*

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio Rheoliadau 2017 a 2018 i ddarparu ar gyfer uwchraddio'r symiau cymorth i fyfyrwyr yn flynyddol yn ôl chwyddiant er mwyn:

- **cynyddu** cyfanswm y Grant i Fyfyrwyr Anabl a fydd ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau i astudio ac sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru;
- **cynyddu** swm y Grantiau i Ddibynyddion a fydd ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau i astudio ac sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir – 3.05 y cant;
- **cynyddu** swm y benthyciad cynhaliaeth a fydd ar gael i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny, er mwyn sicrhau bod y pecyn cynhaliaeth cyfan yn adlewyrchu amcanestyniad y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer 2021 (cyfradd fesul awr o £9.20 y Cyflog Byw Cenedlaethol);
- **cynyddu** swm y benthyciad cynhaliaeth a fydd ar gael i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Awst 2018, yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir, er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw; a
- **lleihau** swm y grant ffioedd dysgu a **chynyddu** swm y benthyciad ffioedd dysgu i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Awst 2018, yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir, fel nad yw cyfanswm y cymorth ar gyfer ffioedd dysgu yn newid, yn unol â'r polisi a sefydlwyd.

*Ôl-raddedig*

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Meistr yn cael eu diwygio er mwyn cynyddu'r swm cyffredinol o gymorth yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir o £17,489 i £18,025, drwy gynyddu uchafswm y benthyciad. Bydd hyn yn gymwys i fyfyrwyr newydd yn unig, sy'n dechrau cyrsiau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl hynny. Yn wahanol i gymorth i fyfyrwyr israddedig, lle mae cynnydd yn y cymorth ar gyfer costau byw yn flynyddol ar gyfer pob carfan, cyfraniad at gostau yw'r cymorth ar gyfer graddau Meistr ôl-raddedig.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Doethurol yn cael eu diwygio er mwyn cynyddu swm y cymorth yn ôl RPIX o £26,445 i £27,265. Benthyciad yw'r cymorth doethurol

yn unig. Eto, mae’r cymorth hwn ar gael i  fyfyrwyr newydd yn unig, sydd wedi dechrau ar gyrsiau ar 1 Awst 2021 neu ar ôl hynny.

Cydgrynhoi Grantiau i Fyfyrwyr Anabl penodol i un lwfans newydd

Bydd Rheoliadau 2021 yn cyfuno tri o’r pedwar categori lwfans sydd ar gael ar hyn o bryd i un lwfans gydag un terfyn ariannol. Dyma’r tri chategori sy’n cael eu cyfuno: lwfans cynorthwyydd personol anfeddygol, cyfarpar arbenigol a lwfans cyffredinol ar gyfer gwariant arall sy’n gysylltiedig ag anabledd. Bydd y categorïau’n parhau at ddibenion nodi’r cymorth. Bydd teithio’n cael ei gadw fel lwfans ar wahân, heb gap wedi’i ragddiffinio, fel y mae ar hyn o bryd.

Y cap ar y lwfans newydd (ac eithrio teithio) ar gyfer 2021/22 fydd £31,831. Mae'r cap hwn yr un fath ar gyfer myfyrwyr llawnamser neu rhan-amser sy'n astudio ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Yna, caiff y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig ei alinio â'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig gan gydnabod mai ychydig iawn o wahaniaeth, os o gwbl, sydd rhwng costau'r rhwystrau sy’n eu hwynebu. Mae cymorth rhan-amser hefyd yn cyd-fynd â'r cymorth llawn amser cyfatebol, eto gan sicrhau cydraddoldeb i bob myfyriwr anabl

Bydd myfyrwyr newydd a pharhaus yn elwa o'r newidiadau o 2021/22. Yn ogystal, mae angen gwneud mân ddiwygiad i sicrhau bod myfyrwyr sy'n dod yn gymwys ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd yn gymwys i gael cymorth o'r dyddiad y maent yn dod yn fyfyriwr cymwys.

Gwneud y newidiadau i’r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin sydd wedi’u cymhwyso i fframwaith codio pynciau DPAU.

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu bod myfyriwr rhan-amser ar gyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny yn gymwys i gael cymorth er iddo ennill gradd gyntaf gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, os yw'n astudio un o'r pynciau a restrir mewn rheoliadau. Gwneir darpariaeth debyg yn Rheoliadau 2017 ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018.

Diffinnir y pynciau eithriedig gan ddefnyddio Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch a'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin sy'n darparu grwpiau o feysydd pwnc o fewn y dosbarthiad hwnnw. Mae'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin yn cael ei diwygio o dro i dro ac mae wedi diweddaru'n ddiweddar o fersiwn 1.2 i 1.3.3. O'r herwydd, mae angen diwygio rheoliadau. Mae'r newidiadau'n cadw'r polisi presennol.

## 5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal ar gyfer yr ymgodiadau na'r newidiadau DPAU.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau i'r Grantiau i Fyfyrwyr Anabl ac mae crynodeb o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru - https://llyw.cymru/newidiadau-i-lwfansau-myfyrwyr-anabl
Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r newidiadau arfaethedig ar y cyfan.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2021.

### Yr opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

Canlyniad peidio â gwneud Rheoliadau 2021 yw y bydd gwerth y cymorth i fyfyrwyr yn gostwng mewn termau real, gan adael myfyrwyr i ysgwyddo cost y 'gostyngiad' hwn; ni fydd y cyrsiau y gall myfyrwyr rhan-amser fod â hawl i gael cymorth mewn perthynas â nhw o dan reoliadau 2017 a 2018 yn adlewyrchu'r polisi cyfredol; a bydd y system bresennol o Grantiau i Fyfyrwyr Anabl yn parhau. O ran y Grantiau i Fyfyrwyr Anabl, golyga hyn y bydd gwahaniaeth o hyd rhwng myfyrwyr llawnamser a rhan-amser a bydd myfyrwyr yn parhau i fod yn gyfyngedig o ran y symiau y gallant eu gwario ar wasanaethau penodol, a allai eu rhwystro rhag dysgu.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

Mae gwneud Rheoliadau 2021 yn sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi a bod y fframwaith deddfwriaethol yn adlewyrchu polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn gywir.

### Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

Byddai gadael y rheoliadau presennol yn eu lle yn golygu na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr. Byddai myfyrwyr yn ysgwyddo cost o ostyngiad gwirioneddol yng ngwerth y cymorth i fyfyrwyr.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

Drwy wneud Rheoliadau 2021 mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod system cymorth i fyfyrwyr Cymru yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol priodol a bod yr ymrwymiadau polisi i fyfyrwyr yn cael eu cyflawni. Bydd myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yn elwa ar gynnal gwerth gwirioneddol eu cymorth. Mae manteision addysg uwch i'r unigolyn, i'r economi ac i gymdeithas wedi'u hen brofi.

Mae effaith yr ymgodiadau blynyddol arferol sy'n cael eu cymhwyso i gyfraddau cymorth i fyfyrwyr bob blwyddyn yn niwtral ar y cyfan, gan gadw gwir werth y cymorth. Bydd yr ymrwymiad i ariannu cymorth i fyfyrwyr yn unol â rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn rhan o broses cyllideb 2021-22 a chaiff yr arian hwn ei flaenoriaethu yn erbyn cyllidebau is-adrannol Addysg Uwch.

Roedd y gyllideb derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 (at ddibenion gwybodaeth) fel a ganlyn:

| **Cyllideb** | **£m** |
|---|---:|
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr (BEL 4704) | 390.742 |
| Cymorth i Fyfyrwyr AME (BEL 4713) | 863.631 |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr - Cost Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (BEL 4707) | 106.849 |
| **Cyfanswm** | **1,361.222** |

Bydd y gyllideb sydd ei hangen i gefnogi'r lwfansau cymorth Grantiau i Fyfyrwyr Anabl diwygiedig yn dod o dan y cyllid cymorth i fyfyrwyr safonol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22. Ni ddisgwylir i effaith y newidiadau hyn fod yn fwy nag £1.7m.

**Asesu'r gystadleuaeth**

Nid yw gwneud Rheoliadau 2021 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn ddarostyngedig i waith adolygu parhaus a manwl gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi o ran eu gweithredu'n ymarferol.

**Crynodeb**

Mae'n angenrheidiol gwneud Rheoliadau 2021 er mwyn diweddaru agweddau ar y system cymorth i fyfyrwyr addysg uwch i fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2020/21.